




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mwy

na

geiriau

**Y Fframwaith Strategol
ar gyfer Gwasanaethau
Cymraeg mewn Iechyd,
Gwasanaethau Cymdeithasol
a Gofal Cymdeithasol**



Adroddiad Cynnydd – Blwyddyn 2

Cyflwyniad a gorolwg	1
Negeseuon allweddol	1
Camau nesaf	3
Atodiad	4

Cyflwyniad a gorolwg

Fe lansiodd Llywodraeth Cymru Fframwaith Strategol olynol *Mwy na geiriau...* ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol ym mis Mawrth 2016 www.gov.wales/topics/health/publications/health/guidance/words/?skip=1&lang=cy. Wrth galon y fframwaith mae'r syniad bod medru defnyddio eich iaith eich hun yn rhan annatod o ofal. Mae'r cynllun gweithredu 3 blynedd, sy'n rhan o'r ddogfen, yn cynnwys camau gweithredu, ddylid cael eu cyflawni yn ystod 2016-2019.

Er mwyn gallu mesur cynnydd derbyniwyd diweddariadau gan sefydliadau arweiniol ar gamau gweithredu 2017-2018 fframwaith olynol *Mwy na geiriau...* Mae Atodiad A yn rhoi gorolwg o'r cynnydd yn erbyn pob cam gweithredu. O gofio fod camau gweithredu blwyddyn 1 yn gosod y sylfaen ar gyfer y blynyddoedd dilynol, gofynnwyd hefyd i'r sefydliadau adrodd yn ôl ar rai o'r prif gamau gweithredu na lwyddwyd i'w cyflawni yn llawn yn 2016-17.

Dangosodd yr adroddiadau cynnydd ar weithredu gofynion 2017-2018 '*Mwy na geiriau*' fod yna lawer wedi'i gyflawni yn erbyn nifer o'r camau gweithredu a roedd yna bocedi o arfer da. Ceir tystiolaeth o hyd nad yw cynnydd yn cael ei wneud yn gyson ar draws bob corff a gwasanaeth a bod yna waith pellach yn cael ei gynllunio, o ran rhai o'r camau gweithredu, ac mae angen hynny, er mwyn adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yma.

Negeseuon Allweddol

Mae'n braf gallu adrodd fod nifer o sefydliadau yn manteisio ar y cyfle i ddatblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu gan fanteisio ar y ddarpariaeth Cymraeg Gwaith newydd sy'n cael ei ddarparu gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, yn arbennig y cwrs blasu 10 awr ar-lein. Cafodd cwrs ar-lein newydd a baratowyd yn benodol ar gyfer y sector iechyd ei lansio ym mis Medi ac mae cwrs ar gyfer y sector gofal yn mynd i gael ei lansio yn fuan.

Mae sawl sefydliad yn dal i wynebu heriau o ran cynyddu capasiti i ddarparu gwasanaethau Cymraeg, ond bu gwelliant yn ddiweddar yn y nifer yn y maes iechyd sydd wedi cwblhau'u lefelau sgiliau Cymraeg yn y Cofnod Staff Electronig (ESR). Llwyddodd rhai sefydliadau i wneud hyn drwy ei gwneud hi'n orfodol i'r cymwyseddau Cymraeg gael eu diweddar fel rhan o'r broses rheoli perfformiad a thrwy wneud yr ESR ar gael ar ddyfeisiadau personol staff. Er mwyn adeiladu ymhellach ar hyn mae'r Uned Polisi Iaith Gymraeg wedi gofyn i'r byrddau iechyd a'r ymddiriedolaethau ddarparu data iddynt ar yr ESR bob 6 mis fel bod y gwelliant a welwyd yn ddiweddar o ran y cyfraddau cwblhau yn parhau.

Manteisiodd sawl awdurdod lleol hefyd ar y cyfle i adolygu swyddi er mwyn adnabod y swyddi hynny lle mae'r Gymraeg yn hanfodol gan ystyried yr anghenion sgiliau ar gyfer y swyddi hynny. O'r wybodaeth a dderbyniwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru mae nifer y staff gofal cyffredinol sydd yn gallu'r Gymraeg yn amrywio. Mae awdurdodau lleol hefyd nawr yn rhoi disgwyliadau o fewn y cytundeb ar gyfer cyflawni'r Cynnig Rhagweithiol pan yn comisiynu gofal.

Mae'n gadarnhaol nodi fod yna ymwybyddiaeth gynyddol am y Cynnig Rhagweithiol yn y maes iechyd a gofal gyda mwy yn gwneud y cynnig a pheth tystiolaeth fod rhai systemau yn ei gofnodi. Dangosodd Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017-18 ar gyfartaledd y gofynnwyd i 15% o bobl oedd yn defnyddio ysbytai neu wasanaethau Meddyg Teulu a fyddai'n well ganddynt dderbyn triniaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Roedd y ffigur ar ei uchaf (24%) ym Mwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr sy'n debygol o gael ei esbonio gan y gyfran uwch o siaradwyr Cymraeg sydd yng Ngogledd Cymru.

Mae'r heriau o ran gallu a chapasiti gan gynnwys recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg, diffyg sgiliau Cymraeg a hyder i'w defnyddio, a systemau digidol dwyieithog yn parhau. O ran y cynnig rhagweithiol, gyda'r ddau sector mae tueddiad i ganolbwyntio ar roi'r Cynnig Rhagweithiol yn y "drws ffrynt" gan efallai feddwl llai am y cynnig rhagweithiol y tu hwnt i hynny.

Gyda *Mwy na geiriau...* a dyfodiad y Safonau Iaith Gymraeg ar gyfer y sector iechyd mae'n glir fod sefydliadau yn rhoi gwerth ar rôl a gwaith y Swyddog Iaith yn eu sefydliad. Fodd bynnag, mae rhai sefydliadau wedi mynd ymhellach nag eraill drwy gryfhau eu capasiti Iaith Gymraeg. Mae gan Betsi Cadwaladr a Hywel Dda, er enghraifft, Dim Iaith Gymraeg. Er ei bod hi dal yn bwysig i ystyriaethau o ran y Gymraeg gael eu prif-ffrydio ar draws sefydliadau, mae'n glir fod buddsoddi ychwanegol o ran capasiti'r swyddogion Iaith Gymraeg yn gwneud gwahaniaeth. Yng ngofal cymdeithasol mae nifer helaeth o awdurdodau lleol wedi pennu pencampwyr Iaith Gymraeg er mwyn hyrwyddo'r agenda, er bod trosiant staff yn golygu bod newid yn digwydd yn aml o ran y person sy'n dal y swyddogaeth honno.

Gwelwyd cynnydd gyda'r gwaith yn y maes gofal sylfaenol dros y flwyddyn ddiwethaf. Cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Mawrth y byddai gwella gwasanaethau Cymraeg yn rhan o ddiwygio contract y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol ar gyfer 2019-20 gyda gwaith ar gasglu gwybodaeth sylfaenol yn dechrau yn ystod 2018-19. Bydd dyletswyddau Iaith Gymraeg yn cael eu gosod hefyd ar ddarparwyr gofal sylfaenol annibynnol o Ebrill 2019 a bydd trafodaethau yn cael eu cynnal dros y misoedd nesaf ynghylch yr union newidiadau. Mae'r byrddau iechyd hefyd wedi bod yn cynnig cyngor a chefnogaeth i ddarparwyr gofal sylfaenol drwy gynnal sesiynau ymwybyddiaeth iaith gyda staff meddygfeydd. Ceir tystiolaeth hefyd o arfer da yn y Pecyn Fferylliaeth a lansiwyd gan Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr er mwyn annog mwy o staff fferyllfeydd i ddefnyddio'r Gymraeg. Anogir staff i ddefnyddio'r Gymraeg ac i wneud yr iaith yn fwy gweladwy o fewn y fferyllfa er budd cleifion sy'n siarad Cymraeg. Mae'r pecynnau yn arf ymarferol i roi'r Cynnig Rhagweithiol ar waith.

Mae'n braf hefyd gweld dau fwrdd iechyd yn cydweithio ar beilot gyda Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo sefydliadau gofal sylfaenol mewn dwy ardal glwstwr.

Ceir tystiolaeth hefyd o gydweithio agosach rhwng iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ar gamau gweithredu sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Mae fforwm Mwy na geiriau yng Ngogledd Cymru yn tynnu nifer o sefydliadau perthnasol ynghyd i weithio gyda'i gilydd i gynorthwyo i weithredu Mwy na geiriau a braf yw gallu adrodd fod dau fforwm cydweithredol tebyg nawr wedi cael eu sefydlu yn Ne Cymru.

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi gwneud cynnydd da i wella'i ddarpariaeth o gyrsiau cyfrwng Cymraeg mewn iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'n ariannu darlithfeydd ledled Cymru mewn Nyrzio, Meddygaeth (gan gynnwys Biofeddygaeth/Geneteg), Gwyddorau Iechyd, Lleferydd a Iaith, Fferylliaeth, Gwaith Cymdeithasol gan gynnwys cwrs ôl-radd mewn Gwaith Cymdeithasol.

Ym mis Hydref 2017 cynhaliwyd Digwyddiad Dathlu Mwy na geiriau. Nod y digwyddiad oedd dathlu llwyddiant a rhannu arfer da o ran cryfhau gwasanaethau Cymraeg yn y maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Yn ogystal â gwobrwyo arfer da cafwyd cyfle i glywed ac i ddysgu o brofiadau siaradwr o Wlad y Basg a siaradwyr eraill o Gymru. Derbyniwyd 65 o enwebiadau o bob rhan o Gymru a mynychodd dros 200 y digwyddiad.

Y mentrau a ddaeth i'r brig oedd:

- Rhwydwaith o fewn Coleg y Gwyddorau ym Mhrifysgol Caerdydd sy'n dwyn ynghyd gydweithwyr o bob maes pwnc yn y coleg i sicrhau bod gan fyfyrwyr bob cyfle i ddatblygu sgiliau Cymraeg sydd eu hangen ar gyfer gyrfa glinigol.
- Cynllun Dewis Iaith Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gyda chleifion dementia sy'n rhoi'r cyfrifoldeb ar y sefydliad i gynnig gwasanaeth Cymraeg.
- Aelodau'r Bwrdd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda – mae'r Bwrdd wedi arwain o'r brig er mwyn datblygu darpariaeth iaith Gymraeg a gwneud gwahaniaeth sylweddol i'r gwasanaethau Cymraeg mae cleifion yn eu derbyn.

Camau Nesaf

Mae gwaith ar werthusiad annibynnol o *Mwy na geiriau...* wedi dechrau er mwyn asesu cynnydd ac effaith y fframwaith o ran gwella gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r gwerthusiad yn un o amcanion cynllun gweithredu Cymraeg 2050 ar gyfer 2017-21 www.gov.wales/topics/welshlanguage/welsh-language-strategy-and-policies/welsh-language-policies-upto-2017/welsh-language-strategy-action-plan/?skip=1&lang=cy. Bydd gwaith ar y gwerthusiad yn para hyd 2020.

Adrodd yn ôl ar y cynnydd gyda Fframwaith Strategol Mwy na geiriau... Camau Gweithredu 2017 a 2018

Rhif y cam gweithredu	Gweithred	Gan Bwy	Erbyn Pryd	Cyflawni'r Amcanion
Amcan 1: Arweinyddiaeth Leol, Genedlaethol a Pholisi Cenedlaethol				
1.1	Yr holl ddogfennau polisi a strategaeth ym maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol (yn cynnwys Papurau Gwyn a Gwyrdd yn amlinellu cynigion deddfwriaethol) i gyfeirio'n benodol at y cyfrifoldeb i ddarparu iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yn Gymraeg.	Llywodraeth Cymru (LiC).	Mawrth 2017	<p>Mae hyn yn rhan o'r broses o ddatblygu polisiau a Phapurau Gwyn a Gwyrdd drwy'r gwaith o wneud ac adolygu Asesiadau Effaith Iaith Gymraeg a'r gefnogaeth sy'n cael ei darparu i'r Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol drwy'r Uned Polisi Iaith Gymraeg.</p> <p>Mae rhai o'r prif bolisiau a'r strategaethau sy'n cyfeirio'n benodol at yr angen i ddarparu iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yn Gymraeg yn cynnwys Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, y Cynllun Gweithredu Dementia, Concordat Gofal Argyfwng Iechyd Meddwl a Cymru Iachach.</p>
1.2	Rhaglenni gwaith cenedlaethol sy'n cefnogi gwelliant, trawsnewid a rhannu arfer gorau i gynnwys yr angen i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg.	Pawb.	Mawrth 2017	<p>Mae'r Cynllun Cymru Iachach a luniwyd fel ymateb i'r Adolygiad Seneddol yn nodi'r angen i ddatblygu strategaeth gweithlu newydd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru sy'n cynnwys cryfhau sgiliau Cymraeg.</p> <p>Mae Strategaeth Dementia Llywodraeth Cymru yn anelu i sicrhau fod pobl â dementia yn gallu byw eu bywydau mor annibynnol â phosibl gan ddarparu cefnogaeth i ofalwyr. Mae'r Strategaeth yn cydnabod pwysigrwydd darparu gwasanaethau yn Gymraeg gan wneud hynny yn rhagweithiol a bydd y cynllun gweithredu dementia yn cael ei roi ar waith yn unol â <i>Mwy na geiriau</i>.</p> <p>Nododd Gofal Cymdeithasol Cymru fod fforymau rheolwyr cofrestredig wedi'u cynnal rhwng mis Mai a mis Mehefin a bod gweithdai Iaith Gwaith wedi cael eu darparu i staff ar draws y sefydliad i sicrhau bod gan yr holl staff wybodaeth a dealltwriaeth glir am <i>Mwy na geiriau</i>.</p>

Rhif y cam gweithredu	Gweithred	Gan Bwy	Erbyn Pryd	Cyflawni'r Amcanion
1.3	Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol i gadw/penodi uwch swyddog fel Hyrwyddwr y Gymraeg, a Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau i amddiffyn a hybu swydd y Swyddog Iaith Gymraeg o fewn eu sefydliadau.	Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol. Prif Weithredwyr GIG Cymru.	Mawrth 2017	Mae 15 o'r 22 awdurdod lleol wedi nodi fod ganddynt Bencampwr Iaith Gymraeg a llawer o'r rheini gyda chyswllt â'r cydlynnydd iaith Gymraeg. Yn y GIG mae'n amlwg fod sefydliadau yn gwerthfawrogi rôl a gwaith eu swyddog iaith Gymraeg a mae rhai sefydliadau wedi buddsoddi yn ddiweddar yng nghapasiti eu swyddogion iaith, e.e. mae gan Betsi Cadwaladr a Hywel Dda Dîm Iaith Gymraeg. Mae'n amlwg fod buddsoddi yn ychwanegol yng nghapasiti'r swyddogion iaith Gymraeg yn gwneud gwahaniaeth. Nododd rhai bod cael un swyddog iaith mewn sefydliad yn gallu bod yn heriol.
1.4	Darparu gwasanaethau yn Gymraeg i gael ei brif ffrydio i waith y Grŵp Arweinyddiaeth Cenedlaethol ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol.	LiC.	Mawrth 2017	Cynrychiolaeth gwasanaethau cymdeithasol cryf gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n aelod o'r Grŵp a'r ffaith fod Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru yn gyd-gadeirydd Bwrdd Partneriaeth y Gymraeg mewn Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.
1.5	Bydd y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, yn cydnabod yr angen i ddarparu gofal yn Gymraeg ac yn rhannu arfer gorau wrth wneud ei waith o sicrhau gwelliannau a darparu cyngor.	LiC. Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol.	Mawrth 2017	Cynhaliwyd trafodaethau gyda chadeirydd y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn 2017 i gydnabod yr angen.
1.6	Sefydliadau GIG Cymru ac ADSS Cymru i weithio i godi proffil pwysigrwydd darparu gwasanaethau yn Gymraeg mewn digwyddiadau cenedlaethol.	Pawb.	Mawrth 2018	Mae hyn wedi bod yn faes sydd wedi gweld cryn sylw a chynnydd gan gynnwys gweithgareddau yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod yr Urdd yn 2016, 2017 a 2018 a'r Digwyddiad Dathlu Mwy na Geiriau cenedlaethol a gynhaliwyd yn Hydref 2017. Mae aelodau o dimau'r Gymraeg mewn nifer o fyrdau iechyd wedi bod wrthi'n tynnu sylw at faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg ym maes iechyd, a phwysigrwydd gofal yn Gymraeg, yn y cyfryngau Cymraeg, rhaglenni ar S4C a Radio Cymru.

Rhif y cam gweithredu	Gweithred	Gan Bwy	Erbyn Pryd	Cyflawni'r Amcanion
				Dros y blynyddoedd diwethaf bu gan yr Uned Polisi Iaith Gymraeg Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru stonidin yng nghynhadledd flynyddol ADSS Cymru.
1.7	Cynghorau Iechyd Cymuned i brif ffrydio asesiad o'r gwasanaethau Gymraeg a ddarperir yn y gwasanaethau iechyd i mewn i'w gwaith.	LiC. Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru.	Mawrth 2018	Mae hyn yn cael ei drafod ymhellach gyda'r Cynghorau Iechyd Cymuned a bydd cynnydd yn cael ei ddiweddarau yn adroddiad blwyddyn 3.
1.8	Sefydliadau'r trydydd sector a'r sector annibynnol i hybu ymwybyddiaeth o anghenion Cymraeg pobl a rhannu arfer gorau ac adnoddau ar ddarparu gofal yn Gymraeg ymhlith darparwyr gofal.	Holl sefydliadau'r trydydd sector a'r sector annibynnol.	Mawrth 2017	Cynhaliwyd fforymau Rheolwyr Cofrestredig. Darparwyd gweithdai Cymraeg Gwaith i tua 200 o reolwyr.
1.9	Y Cynnig Rhagweithiol a'r angen i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i'w gynnwys mewn arweiniad cenedlaethol ar asesiad statudol ac anstatudol hefyd. Mae hyn yn cynnwys asesiad clinigol proffesiynol mewn iechyd a gofal cymdeithasol.	LiC.	Mawrth 2018	Nifer o fentrau wedi'u cynnal gan fyrdau iechyd ac ymddiriedolaethau i weithredu'r cynnig rhagweithiol. Fel y nodwyd yn y gwaith i ddatblygu Safonau Iaith Gymraeg ar gyfer y sector iechyd mae hwn yn faes cymhleth a bydd angen gwaith parhaus.
1.10	Bydd Fframwaith Cyflawni a Deilliannau'r GIG yn cydnabod yn glir bod darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddeiliant perthnasol i bob parth o fewn y fframwaith.	LiC.	Mawrth 2018	Mae Fframwaith Canlyniadau a Fframwaith Cyflawni'r GIG ar gyfer 2016-17 a 2017-18 wedi cynnwys mesurau cyflawni ar draws meysydd ar ddarparu gwasanaethau Cymraeg.

Rhif y cam gweithredu	Gweithred	Gan Bwy	Erbyn Pryd	Cyflawni'r Amcanion
Amcan 2: Mapio, Archwilio, Casglu Data ac Ymchwil				
2.1	Dylai'r GIG a'r gwasanaethau cymdeithasol fapio'r ddarpariaeth a'r gallu presennol i ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar draws yr holl wasanaethau (gan gynnwys gofal sylfaenol). Lle mae'r gallu yn isel, dylid llunio cynllun gweithredu ar gyfer cynyddu'r gallu. Dylid blaenoriaethu'r gallu i ddarparu Cynnig Rhagweithiol i bobl o fewn y grwpiau a adnabuwyd fel y rhai â'r angen mwyaf am wasanaethau Cymraeg.	Prif Weithredwyr GIG Cymru. Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol.	Mawrth 2017	<p>Mae 20 o'r 22 Awdurdod Lleol wedi adrodd ar gamau gweithredu gyda rhai yn cwmpasu pob elfen ond eraill yn anghyflawn. O'r 20 a ymatebodd mae'n amlwg eu bod yn gweithredu'r Cynnig Rhagweithiol ar y pwynt cyswllt cyntaf.</p> <p>Mae rhai sefydliadau iechyd wedi mapio'r ddarpariaeth bresennol, ac o'r rheini sydd wedi gwneud hynny yr her o hyd yw cynyddu capasiti. Nododd un Bwrdd Iechyd fod ystyried ehangu cyfleoedd ar gyfer y Gymraeg yn heriol oherwydd y pwysau parhaus sydd ar wasanaethau rheng-flaen.</p> <p>Bydd y safonau iaith ar gyfer y sector iechyd yn sbardun pellach i symud y cam gweithredu hwn yn ei flaen.</p>
2.2	Dylai fod gan y gwasanaeth iechyd, y gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaethau gofal cymdeithasol systemau wedi eu sefydlu i gofnodi pan fydd Cynnig Rhagweithiol wedi cael ei wneud drwy gofnodi anghenion/dewisiadau iaith yng nghofnodion yr unigolyn. Mae'r cam gweithredu hwn hefyd yn berthnasol i holl ddarparwyr gwasanaethau gofal eilaidd a sylfaenol.	Prif Weithredwyr GIG Cymru. Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol.	Mawrth 2017	<p>Mae mwyafrif y byrddau iechyd/ymddiriedolaethau wedi dangos tystiolaeth bod ganddynt systemau yn eu lle i gofnodi pan fo cynnig rhagweithiol wedi'i wneud o safbwynt rhai o'u gwasanaethau ond nid yw hyn yn digwydd bob tro ar draws eu holl wasanaethau. Dangosodd Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017-18 y gofynnwyd i 15% o bobl mewn apwyntiad Meddyg Teulu neu Ysbyty a fyddai'n well ganddynt dderbyn triniaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Dywedodd 3% o'r bobl fod y driniaeth bob amser wedi'i darparu yn Gymraeg. Roedd y cyfraddau yn uwch ar gyfer Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, sy'n debygol o gael ei esbonio gan y gyfran uwch o siaradwyr Cymraeg yng Ngogledd Cymru.</p> <p>Ychydig o dystiolaeth yn yr adroddiadau a gafwyd o gofnodi pan fo cynnig rhagweithiol wedi'i wneud o fewn gofal sylfaenol.</p> <p>Mewn rhai byrddau iechyd defnyddir systemau gweinyddu cleifion gwahanol nad ydynt yn gydnaws â'i gilydd. Felly gallai claf fynd i nifer o adrannau ac ni fyddai ei angen ieithyddol bob tro yn hysbys.</p>

Rhif y cam gweithredu	Gweithred	Gan Bwy	Erbyn Pryd	Cyflawni'r Amcanion
				<p>Dywedodd y Gwasanaeth Ambiwlans yn ei ymateb y bydd y gwasanaeth 111 newydd yn caniatáu i alwyr ddewis rhwng y Gymraeg a'r Saesneg.</p> <p>Ceir enghreifftiau o arfer da yn enwedig datblygiadau o ran cofnodi dewis iaith cleifion mewnol yn Ysbyty Cwm Rhondda a chan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sy'n defnyddio magnetau gyda'r logo Iaith Gwaith er mwyn adnabod cleifion sy'n dymuno siarad yn Gymraeg. Ers i'r Cynllun Dewis Iaith gael ei gyflwyno ar Ward Glaslyn yn Ysbyty Gwynedd mae bellach wedi'i ymestyn i bob ward yn Ysbyty Gwynedd ac ysbytai cymunedol ledled Gogledd Cymru.</p> <p>Mae'n glir fod yr awdurdodau lleol a ymatebodd yn rhoi'r Cynnig Rhagweithiol ar waith yn y pwynt cyswllt cyntaf.</p>
2.3	Yr holl ddarparwyr gofal cofrestredig i gynnwys gwybodaeth yn yr adroddiad blynyddol y byddant yn ei gyhoeddi am lefel y gwasanaethau Cymraeg y maent yn eu darparu i ddefnyddwyr presennol a darpar ddefnyddwyr eu gwasanaethau a'u teuluoedd.	LiC. Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).	Mawrth 2017	Mae rhaglen arolygu graidd awdurdod lleol Arolygiaeth Gofal Cymru yn datgan fod y cynnig rhagweithiol yn cael ei wneud a bod gwybodaeth, cyngor a chymorth yn cael eu darparu yn Gymraeg yn unol â Mwy na geiriau. Mae gan yr awdurdodau lleol system yn ei le ac mae'n cofnodi pan fo cynnig rhagweithiol yn cael ei wneud gan gofnodi angen iaith yng nghofnodion pobl.
2.4	Dylai'r systemau data mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol alluogi'r gwasanaeth i weithredu'n ddwyieithog i gyflawni anghenion siaradwyr Cymraeg. Er enghraifft: <ul style="list-style-type: none"> • Dylid casglu a chofnodi sgiliau Cymraeg staff yn electronig (dylid diwygio Cofnod Staff Electronig GIG Cymru i sicrhau bod rhaid i'r holl staff gofnodi eu sgiliau Cymraeg) 	Prif Weithredwyr GIG Cymru. Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol. NWIS. LiC.	Mawrth 2017	O'r 20 ymateb, mae 13 Awdurdod Lleol wedi cynnal arolwg staff i adnabod sgiliau staff sy'n siarad Cymraeg. Mae yna heriau gydag un awdurdod lleol yn adrodd nad yw hunan-adrodd ar y sgiliau yn flaenoriaeth i staff.

Rhif y cam gweithredu	Gweithred	Gan Bwy	Erbyn Pryd	Cyflawni'r Amcanion															
	<ul style="list-style-type: none"> Cofnodion cleientiaid a chleifion i gynnwys adrannau sy'n galluogi'r staff i gofnodi pan fydd 'Cynnig Rhagweithiol' yn cael ei wneud a nodi dewis iaith yr unigolyn fel y gellir cyfeirio ato yn y dyfodol. 			<p>Dros y ddwy flynedd diwethaf gwelwyd gwelliant sylweddol o ran cwblhau sgiliau iaith Gymraeg yn yng Nghofnod Staff Electronig GIG Cymru (ESR). Llwyddodd ambell i sefydliad i wneud hyn drwy sicrhau fod sgiliau iaith Gymraeg yn cael eu diweddar fel rhan o'r broses o reoli perfformiad a thrwy sicrhau fod yr ESR ar gael ar ddyfeisiadau personol staff. Y gyfradd ymateb ar gyfartaledd yng Nghymru yw 52%.</p> <p>Dyma rai o'r sefydliadau sydd wedi dangos y gwelliant mwyaf o ran cwblhau'r ESR rhwng 2016 a 2018:</p> <table border="1" data-bbox="1326 555 2089 820"> <thead> <tr> <th></th> <th>2016</th> <th>2018</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Cwm Taf</td> <td>32%</td> <td>65%</td> </tr> <tr> <td>Felindre</td> <td>65%</td> <td>85%</td> </tr> <tr> <td>Hywel Dda</td> <td>72%</td> <td>81%</td> </tr> <tr> <td>Betsi Cadwaladr</td> <td>76%</td> <td>84%</td> </tr> </tbody> </table> <p>Mae angen gwneud gwelliannau pellach a hefyd gynyddu'r cyfraddau cwblhau a hefyd y nifer sy'n cofnodi lefelau sgiliau 1-5. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau i gyflwyno data ESR iddynt bob chwe mis fel y gall y gwelliant a welwyd yn ddiweddar o ran cwblhau'r cyfraddau parhau.</p> <p>Mae llawer o'r byrddau iechyd yn nodi y bydd System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru'n helpu gyda'r gwaith o gofnodi'r Cynnig Rhagweithiol.</p> <p>Nododd Caerdydd a'r Fro fod y system e-amserlennu yn gallu ychwanegu staff sydd â sgiliau Gymraeg fel rhan o dimau'r ward yn ystod shifftiau os oes angen darparu sgiliau Gymraeg.</p>		2016	2018	Cwm Taf	32%	65%	Felindre	65%	85%	Hywel Dda	72%	81%	Betsi Cadwaladr	76%	84%
	2016	2018																	
Cwm Taf	32%	65%																	
Felindre	65%	85%																	
Hywel Dda	72%	81%																	
Betsi Cadwaladr	76%	84%																	

Rhif y cam gweithredu	Gweithred	Gan Bwy	Erbyn Pryd	Cyflawni'r Amcanion
2.5	Dylid cynnwys sgiliau Cymraeg y gweithlu a phroffil Cymraeg y gymuned yn yr adroddiad blynyddol a gyhoeddir gan bob adran o'r gwasanaethau cymdeithasol ac Cynlluniau Tymor Canolig Integredig (IMTP) y GIG i ddangos anghenion Cymraeg.	Prif Weithredwyr GIG Cymru. Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol.	Mawrth 2017	Mae nifer o sefydliadau wedi cynnwys sgiliau Cymraeg y Gweithlu a phroffil Cymraeg y gymuned yn eu IMTPs. Yr her yn awr yw sut maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.
2.6	Caiff cydrannau cyrsiau Cymraeg/dwyieithog a ddarperir ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio rhaglenni iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yn y sector addysg bellach eu mapio a'u hadolygu. Rhennir y wybodaeth hon gyda byrddau iechyd, ymddiriedolaethau, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru.	AB. Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Colegau Cymru.	Mawrth 2017	Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi gwneud cynnydd da i wella'r ddarpariaeth o gyrsiau cyfrwng Cymraeg mewn iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'n ariannu darlithfeydd ledled Cymru mewn Nyrsio, Meddygaeth (gan gynnwys Biofeddygaeth/Geneteg,) Gwyddorau Iechyd, Iaith a Lleferydd, Fferylliaeth, Gwaith Cymdeithasol gan gynnwys cwrs ôl radd mewn Gwaith Cymdeithasol. Mae Colegau Cymru wedi gwneud cynnydd da gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i adnabod llwybrau o fewn y sector iechyd o addysg bellach i addysg uwch.
2.7	Gwasanaeth 111 GIG Cymru i ganfod beth yw dewis iaith pobl a chofnodi hyn i alluogi darparwyr gwasanaethau eraill i wneud 'Cynnig Rhagweithiol' i bobl.	LiC.	Mawrth 2018	Gwasanaeth Galw Iechyd Cymru/111 – gall y system adnabod galwyr sy'n siarad Cymraeg a chaiff y dewis iaith ei gofnodi yn y System Asesu Clinigol.

Rhif y cam gweithredu	Gweithred	Gan Bwy	Erbyn Pryd	Cyflawni'r Amcanion
Amcan 3: Cynllunio Gwasanaethau, Comisiynu a Chontractio a Chynllunio'r Gweithlu				
3.1	Caiff yr angen i wneud 'Cynnig Rhagweithiol' o wasanaethau Cymraeg i bobl ei gyfleu i'r holl staff sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol yn GIG Cymru, mewn awdurdodau lleol neu mewn gwasanaethau a gomisiynir (gan gynnwys darparwyr gofal sylfaenol).	Prif Weithredwyr GIG Cymru. Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol.	Mawrth 2018	<p>Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau ar draws ieuchyd a gofal cymdeithasol yn gwneud hyn a maent yn ei gyflawni yn bennaf drwy eu hyfforddiant cynefino, sy'n rhoi cyfle i drafod y cynnig rhagweithiol mewn modd rhyngweithiol.</p> <p>Mae eraill yn ei wneud drwy ddsbarthu pecynnau hyfforddi y cynnig rhagweithiol, tynnu sylw ato yng nghylchgronau a bwletinau staff, taflenni gwybodaeth, mewnwyd y staff a chynnal gweithdai i roi gwybodaeth am y cynnig rhagweithiol.</p> <p>Nododd Hywel Dda/Betsi Cadwaladr eu bod hefyd wedi cyfathrebu'r angen i wneud cynnig rhagweithiol i staff gofal sylfaenol sy'n contractwyr annibynnol.</p> <p>O safbwynt gwasanaethau cymdeithasol roedd y rhai a ymatebodd yn defnyddio bwletinau a phosteri ar gyfer staff. Yn ogystal, bu i rai awdurdodau gynnwys y Cynnig Rhagweithiol yn rhan o'r hyfforddiant sefydlu ac roedd eraill wedi cynnal gweithdai i gyflwyno gwybodaeth ynghylch y Cynnig Rhagweithiol.</p>
3.2	GIG Cymru ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol i sefydlu proffil Cymraeg eu cymuned (yn seiliedig ar Adroddiad Asesiad y Boblogaeth a gynhyrchir o ganlyniad i adran 14 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a defnyddio'r wybodaeth hon fel man cychwyn ar gyfer cynllunio gwasanaethau er mwyn sicrhau y gellir ateb anghenion siaradwyr Cymraeg ac i asesu bob swydd ar gyfer anghenion sgiliau Cymraeg cyn eu hysbysebu.	Prif Weithredwyr GIG Cymru. LiC. Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol.	Mawrth 2017	<p>Er bod y mwyafrif o'r byrddau ieuchyd/ymddiriedolaethau wedi sefydlu proffil Cymraeg eu cymunedau yr her mewn rhai ardaloedd yw paru pobl sydd angen gofal yn Gymraeg gyda staff sy'n siarad Cymraeg.</p> <p>Nododd tri awdurdod lleol eu bod wedi defnyddio neu eu bod yn bwriadu defnyddio'r wybodaeth mewn asesiadau lleol ar gyfer defnydd iaith er mwyn llywio darpariaeth y dyfodol. Roedd dau awdurdod wedi gofyn am lefel benodol o Gymraeg fel gofyniad hanfodol yn y broses recriwtio. Cafodd hyn ei gynnwys ar gyfer gweithwyr gwasanaethau rheng-flaen neu weithwyr â chyswllt gyda'r cyhoedd. Nodwyd fod heriau gan nad oedd pob aelod o'r gweithlu yn hyderus i ddatgan eu bod yn siarad Cymraeg a nifer cymharol fychan oedd yn dilyn cyrsiau dysgu Cymraeg.</p>

Rhif y cam gweithredu	Gweithred	Gan Bwy	Erbyn Pryd	Cyflawni'r Amcanion
3.3	Systemau cynllunio a chomisiynu GIG Cymru ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol, megis cynlluniau gwasanaeth sy'n cael eu cyhoeddi, i gymryd proffil Cymraeg y gymuned (yn seiliedig ar Adroddiad Asesiad y Boblogaeth a gynhyrchir o ganlyniad i adran 14 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014) i ystyriaeth a sicrhau ei fod wedi ei adlewyrchu wrth gynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau.	Prif Weithredwyr Gig Cymru. Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol.	Mawrth 2017	<p>Mae mwyafrif sefydliadau'r GIG wedi mapio proffil Cymraeg y gymuned ond nid pob un sy'n adlewyrchu hyn wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.</p> <p>Mae gan ran fwyaf o'r byrddau iechyd/ymddiriedolaethau strategaethau sgiliau dwyieithog. Maent yn gyffredinol yn anelu fod gan bob maes gwasanaeth ganran digonol o staff sy'n siarad Cymraeg. Mae rhai yn tynnu sylw at y ffaith fod prinder o weithwyr proffesiynol sy'n siarad Cymraeg yn yr ardal.</p> <p>Mewn perthynas ag asesiad y boblogaeth roedd tri awdurdod wedi defnyddio, neu'n bwriadu defnyddio'r wybodaeth yn yr asesiadau lleol o ran defnydd iaith fel gwybodaeth ar gyfer y ddarpariaeth yn y dyfodol. Roedd un awdurdod lleol wedi adnabod 124 o siaradwyr Cymraeg, ond dim ond 9 oedd yn fodlon defnyddio'u sgiliau.</p>
3.4	Anghenion Cymraeg pobl i gael eu bodloni wrth gomisiynu neu gontractio gwasanaethau gan y sector annibynnol neu'r trydydd sector (e.e. gofal preswyl neu nyrso, eiriolaeth, gofal cartref, gwasanaethau y tu allan i oriau, gwasanaethau meddygon teulu). Darparu gwasanaethau Cymraeg i'w gynnwys mewn manylebau contractau, cytundebau lefel gwasanaeth a phrosesu arian grant.	Prif Weithredwyr GIG Cymru. Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol. Cydwasaethau'r GIG.	Mawrth 2017	<p>Mae gan delerau ac amodau safonol GIG Cymru gymalau penodol sy'n ymwneud â'r Gymraeg.</p> <p>Ar ben hyn mae un bwrdd iechyd wedi sefydlu Grŵp i oruchwylio'r broses. Cafodd rhestr wirio gadarn ei chreu er mwyn sicrhau fod pob agwedd ar faterion ynghylch perfformiad yn cael eu bodloni a bod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal i adolygu contractau. Mae un bwrdd iechyd wedi sicrhau hyblygrwydd yn ei ddim comisiynu i symud atgyfeiriadau i ddarparwyr all fodloni anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg. Mae gan un bwrdd iechyd gontract lefel gwasanaeth gyda'r trydydd sector ac er mwyn sicrhau y gall y 3ydd sector weithredu ar ei ran, rhaid iddynt gael eu Cynllun Iaith Gymraeg eu hunain.</p>

Rhif y cam gweithredu	Gweithred	Gan Bwy	Erbyn Pryd	Cyflawni'r Amcanion
3.5	Y gwasanaethau Cymraeg a ddarperir mewn gofal sylfaenol i gael eu cryfhau drwy gynnwys y Gymraeg yng nghontractau'r Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol cenedlaethol, Optegwyr, Fferyllwyr a Deintyddion. Gwneir hyn yn unol ag Ymchwiliad Comisiynydd y Gymraeg i'r Gymraeg mewn Gofal Sylfaenol, <i>Fy Iaith, Fy Iechyd</i> .	LiC.	Mawrth 2017	Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd ar 19 Mawrth 2018 y bydd gwella gwasanaethau Cymraeg yn rhan o'r broses o ddiwygio'r contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol. Bydd dyletswyddau iaith Gymraeg yn cael eu gosod ar ddarparwyr gofal sylfaenol annibynnol, sef Ymarferwyr Cyffredinol, Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol, Fferyllwyr ac Optegwyr Cymunedol drwy eu contractau gofal sylfaenol neu eu hamodau gwasanaeth. Bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal gyda'r darparwyr gofal sylfaenol annibynnol dros y misoedd nesaf ynghylch yr union newidiadau fydd angen eu gwneud i'w rheoliadau proffesiynol i gynnwys dyletswyddau ynghylch y Gymraeg. Mae'r holl broffesiynau gontractwyr wedi derbyn y bydd y rheoliadau perthnasol yn cael eu diwygio er mwyn gosod dyletswyddau arnynt o 1 Ebrill 2019.
3.6	Drwy'r 64 clwstwr gofal sylfaenol, y byrddau iechyd i gynnal dadansoddiad o anghenion Cymraeg y boblogaeth ar hyn o bryd ac yn y dyfodol a'r cymorth sydd ei angen ar y Gweithlu i ddatblygu'r sgiliau o fewn gofal sylfaenol i ateb yr anghenion hynny. Llywodraeth Cymru i ymgysylltu â chomisiynwyr a darparwyr addysg i adolygu'r trefniadau presennol a nodi pa gamau pellach sydd eu hangen i ddarparu rhaglenni hyfforddiant a all adlewyrchu'r anghenion hyn.	Clystyrau gofal sylfaenol y Byrddau Iechyd. LiC.	Mawrth 2017	Yn gyffredinol mae'r byrddau iechyd wedi cynnig cyngor a chefnogaeth i ddarparwyr gofal sylfaenol a wedi cynnal cyfarfodydd a sesiynau ymwybyddiaeth iaith. Mae nifer o'r byrddau iechyd wedi creu Cynllun Gweithredu ar gyfer y Gymraeg mewn Gofal Sylfaenol er mwyn adnabod yr angen i'r gweithlu ddarparu gwasanaethau Cymraeg yn eu hardaloedd. Mae'r tîm Cymraeg mewn rhai byrddau iechyd yn cynnig llawer o gefnogaeth i staff sy'n gweithio yn y sector gofal sylfaenol, yn enwedig gyda materion megis cyfieithu ac ymwybyddiaeth o hyfforddiant iaith Gymraeg. Mae un bwrdd iechyd wedi dynodi pencampwr y Gymraeg sy'n gweithio ar draws y sector gofal sylfaenol yn yr ardal a gall y byrddau iechyd eraill ddilyn yr esiampl hon.

Rhif y cam gweithredu	Gweithred	Gan Bwy	Erbyn Pryd	Cyflawni'r Amcanion
				<p>Bydd y dyletswyddau iaith Gymraeg sy'n cael eu gosod ar ddarparwyr gofal sylfaenol annibynnol (3.5) yn hwb pellach i yrru'r gwaith hwn yn ei flaen. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnal peilot er mwyn helpu sefydliadau gofal sylfaenol i gydymffurfio â'r dyletswyddau newydd a gaiff eu gosod arnynt o fis Ebrill 2019. Bydd hyn yn cynnwys adnabod anghenion busnesau o fewn y sector a'u cynorthwyo i ddod o hyd i ateb gwell i'w helpu i ddarparu gwasanaethau dwyieithog gwell.</p> <p>Bydd dau swyddog o Gymraeg Byd Busnes yn cynnal y prosiect drwy weithio gyda Meddygon Teulu mewn dwy ardal glwstwr. Ymhlith enghreiffitiau eraill o arfer da mae'r Pecyn Fferylliaeth, sef prosiect ar y cyd rhwng Bwrdd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Menter Iaith Bangor i annog mwy o staff fferyllfeydd i siarad Cymraeg a rhoi'r cynnig rhagweithiol ar waith.</p>
3.7	<p>Penaethiaid gwasanaethau i ddatblygu cynlluniau i gynyddu eu gallu i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg drwy'r staff presennol sy'n siarad Cymraeg. Bydd gwybodaeth am y gallu sydd ei angen yn deillio o Adroddiad Asesiad y Boblogaeth a gynhrychir o dan adran 14 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Lle y canfyddir bylchau yng ngallu'r Gweithlu i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg dylai'r rhain fod wedi eu hadlewyrchu yn Strategaeth Sgiliau Dwyieithog y Sefydliad.</p>	<p>Prif Weithredwyr y GIG. Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol.</p>	Mawrth 2017	<p>Er bod y rhan fwyaf o'r sefydliadau wedi bod yn casglu data ar sgiliau'r gweithlu ac asesiadau o'r boblogaeth nid yw'r wybodaeth yma bob tro yn cael ei hadlewyrchu yn strategaethau sgiliau dwyieithog sefydliadau er mwyn mynd i'r afael â bylchau a datblygu gwasanaethau Cymraeg lle caiff angen ei adnabod. Mae recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg yn her i rai o'r byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau.</p> <p>Roedd dau awdurdod lleol wedi nodi lefel benodol o'r Gymraeg fel gofyniad hanfodol yn y broses recriwtio ar gyfer staff oedd yn gweithio ar y rheng-flaen neu'n dod i gyswllt â'r cyhoedd. Rhai o'r heriau eraill oedd yn wynebu awdurdodau lleol oedd amharodrwydd gan rai o'r gweithlu i adnabod eu hunain fel siaradwyr Cymraeg a'r niferoedd isel oedd yn mynd am hyfforddiant iaith Gymraeg.</p>

Rhif y cam gweithredu	Gweithred	Gan Bwy	Erbyn Pryd	Cyflawni'r Amcanion
3.8	<p>Yr Adroddiad Blynyddol a gyhoeddir gan Fyrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau a Chyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol i wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cynnwys ymrwymiad i ddarparu a datblygu gwasanaethau Cymraeg • ail-gadarnhau pwysigrwydd cyfarfod ag angen Cymraeg fel rhan o asesiad a gofal arferol • rhoi manylion sut y mae gwasanaethau cyfredol yn cyfarfod ag anghenion siaradwyr Cymraeg ochr yn ochr â chyrraedd targedau a nodir gan y Bwrdd Iechyd, yr Ymddiriedolaeth neu'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol i sicrhau gwelliant. 	<p>Prif Weithredwyr y GIG. Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol.</p>	Mawrth 2018	<p>Mae pob un o adroddiadau blynyddol sefydliadau'r GIG yn cyfeirio at y Gymraeg a'r mwyafrif yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg fel mater o angen mewn gofal ac ymrwymiad y sefydliad tuag at hynny gan roi enghreifftiau o'r hyn a gyflawnwyd dros y flwyddyn a fu. Mae eraill yn cyfeirio at y Gymraeg fel un o sawl dull niferus o gyfathrebu gyda phobl mewn ffordd sy'n ateb eu gofynion.</p> <p>Dim ond rhai o'r sefydliadau roddodd fanylion ar sut mae'r gwasanaethau yn bodloni anghenion siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd law yn llaw â thargedau a adnabuwyd gan y byrddau iechyd/ymddiriedolaethau i sicrhau gwelliant.</p>

Rhif y cam gweithredu	Gweithred	Gan Bwy	Erbyn Pryd	Cyflawni'r Amcanion
Amcan 4: Hybu ac Ymgysylltu				
4.1	Arferion gorau mewn darparu gwasanaethau Cymraeg i gael eu rhannu ymhlith yr holl staff sydd â rhan mewn darparu gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau gofal cymdeithasol i bobl (penaethiaid a rheolwyr gwasanaethau yn arbennig).	Prif Weithredwyr GIG Cymru. Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol.	Mawrth 2018	<p>Ceir tystiolaeth o gynnydd o ran codi ymwybyddiaeth a rhannu arfer da ond nid yw hynny'n digwydd yn systematig bob tro/neu wedi'i wreiddio. Roedd y dystiolaeth am ddulliau o rannu gwybodaeth yn cynnwys gwobrau cydnabod staff, fforymau rhanbarthol a'r fewnwyd. Darparodd Hywel Dda dystiolaeth hefyd o rannu arfer da gyda byrddau iechyd/ymddiriedolaethau eraill.</p> <p>Ymhlith yr awdurdodau lleol roedd un sefydliad yn cynnal sesiwn galw heibio i staff i drafod y ddarpariaeth iaith Gymraeg ynghyd ag arolwg ymysg y gweithlu ynghylch eu hymwybyddiaeth o Fesur y Gymraeg. Hefyd, cafwyd cyfleoedd i staff siarad Cymraeg yn ystod amser cinio er mwyn iddynt wella eu sgiliau. Mae fforymau Mwy na Geiriau rhanbarthol wedi'u sefydlu yn y Gogledd, Gwent ac yn Ne Cymru i drafod y ddarpariaeth a'r gofyn ar draws iechyd ac awdurdodau lleol.</p>
4.2	Adnodd gwybodaeth ar-lein i gael ei greu i alluogi staff iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol i gael mynediad at ganllawiau a deunyddiau hyfforddi ar ddarparu gwasanaethau Cymraeg i bobl.	LiC. Gofal Cymdeithasol Cymru.	Mawrth 2017	<p>Mae gan Lywodraeth Cymru borthol ar y wefan Cymraeg sy'n cynnal amrywiaeth o adnoddau i gynorthwyo staff iechyd a gofal cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau Cymraeg: www.cymraeg.gov.wales/services/Services/HealthSocialCare/gweithio-yn-y-maes/?lang=cy</p> <p>Mae dogfen Sgiliau Cymraeg yn eich Gweithle Cyngor Gofal Cymru yn dal i gael ei hyrwyddo ar eu gwefan a chan staff pan font yn ymgysylltu gyda'r sector. Gyda chynnwys eu gwefan wedi'i symud i Gofal Cymdeithasol Cymru ceir dolenni clir i'r tudalennau Gweithio yn Gymraeg ar wefan newydd Gofal Cymdeithasol Cymru er mwyn sicrhau ei bod hi'n hawdd dod o hyd iddi a llywio drwyddi. Rhoddwyd pwyslais ar gynyddu traffig i'r tudalennau hyn yn dilyn lansio gwefan Gofal Cymdeithasol Cymru yn Ebrill 2017.</p>

Rhif y cam gweithredu	Gweithred	Gan Bwy	Erbyn Pryd	Cyflawni'r Amcanion
4.3	Caiff defnydd o'r logo 'iaith gwaith' ei hybu ymhlith staff iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol i alluogi pobl i adnabod siaradwyr Cymraeg.	Prif Weithredwyr GIG Cymru. Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol. LiC.	Mawrth 2017	Caiff y logo 'Iaith Gwaith' ei hyrwyddo'n frwd gan yr holl fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau. Mae rhai byrddau iechyd yn gobeithio cyflwyno'r logo 'Iaith Gwaith' sydd wedi'i wnio i weithwyr proffesiynol iechyd eraill yn ogystal â nyrsys. Mae'r logo 'Iaith Gwaith' wedi ennill ei blwyf ac yn dod yn gyfarwydd iawn ar draws y sefydliadau. Yn ogystal â defnyddio'r logo 'Iaith Gwaith' ymhlith staff iechyd i alluogi pobl i adnabod siaradwyr Cymraeg mae rhai byrddau iechyd yn gosod magnetau gyda'r logo 'Iaith Gwaith' ar fyrddau gwybodaeth cleifion a sticeri yn nodiadau cleifion fel modd o adnabod cleifion mewnol sy'n siarad Cymraeg. O safbwynt gwasanaethau cymdeithasol nodwyd mewn 10 ymateb eu bod yn defnyddio logos a chortynnau dal bathodynau Cymraeg ar gyfer y rhai sy'n siaradwyr Cymraeg.
4.4	Caiff y logo 'Iaith Gwaith', sydd wedi ei wnio'n barod ar wisgoedd swyddogol nyrsys, ei ymestyn i broffesiynau eraill o fewn GIG Cymru.	Prif weithredwyr GIG Cymru. LiC.	Mawrth 2018	O 1 Ebrill 2018 mae gan holl wisgoedd staff Cymraeg Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg (nid dim ond staff nyrsio) y logo Iaith Gwaith.
4.5	Caiff logo tebyg i'r logo 'Iaith Gwaith' ei ddatblygu ar gyfer dysgwyr Cymraeg. Pan fydd wedi cael ei ddatblygu, caiff y logo ei hybu ymhlith staff iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol sy'n dysgu Cymraeg i alluogi pobl i adnabod staff sydd â sgiliau Cymraeg.	LiC. Comisiynydd y Gymraeg.	Mawrth 2018	Comisiynydd y Gymraeg biau hawlfraint y logo 'Iaith Gwaith'. Mae'r Uned Polisi Iaith Gymraeg wedi trafod cyflwyno logo 'Iaith Gwaith' ar gyfer dysgwyr gyda Chomisiynydd y Gymraeg sydd wedi cytuno i hynny.

Rhif y cam gweithredu	Gweithred	Gan Bwy	Erbyn Pryd	Cyflawni'r Amcanion
4.6	Rhyngwynebau a meddalwedd Cymraeg (megis Cysgliad) i fod ar gael i staff iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau gofal cymdeithasol i'w galluogi a'u cynorthwyo i weithio'n ddwyieithog. Dylid ystyried addasu'r systemau presennol i gyrraedd y nod hwn.	LiC. Prif Weithredwyr GIG Cymru. NWIS. Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol.	Mawrth 2018	Adnoddau ar gael yn y rhan fwyaf o sefydliadau gan gynnwys Cysgair neu Cysill. Nododd Iechyd Cyhoeddus Cymru eu bod wedi cael anawsterau a byddant yn cynnal adolygiad o'r trefniadau ar gyfer cynnig Cysgliad. O safbwynt gwasanaethau cymdeithasol derbyniwyd wyth ymateb gyda'r mwyafrif yn defnyddio Cysgair neu Cysill.
4.7	Llywodraeth Cymru i ymgysylltu â Gyrfa Cymru ynglŷn â diwygio eu porth gwybodaeth ar gyfer gyrfaedd er mwyn tynnu sylw at yr angen arbennig am siaradwyr Cymraeg mewn gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau gofal cymdeithasol ar y tudalennau gwybodaeth ar gyfer pob proffesiwn yn benodol (er enghraifft: nyrsys, meddygon a gofalwyr).	LiC. Gyrfaedd Cymru. Gofal Cymdeithasol Cymru.	Mawrth 2017	Yn ddiweddar cyhoeddodd Gyrfa Cymru fideo 'Cymraeg yn y Gweithle' i ddangos manteision gallu siarad Cymraeg yn y gweithle. Cafodd y cwrs ei hyrwyddo yn fewnol i staff a mae yna gynllun i sicrhau ei fod yn cael ei wreiddio a'i ddefnyddio gan Gynghorwyr gyda chleientiaid a phartneriaid. Mae'r Gwasanaeth Ambiwlans yn rhan o'r fideo hefyd: www.youtube.com/watch?v=jwYwBu2GWFt Mae'r angen am sgiliau Cymraeg, yn arbennig mewn gofal plant, addysg, iechyd, gofal cymdeithasol, y diwydiannau creadigol a chyllid hefyd yn cael ei amlygu yn y fideo 'Meithrin y sgiliau y mae Cyflogwyr eu Heisiau' sydd ar gael yn: www.careerswales.com/cy/eich-gyrfa/nodweddion/dyfodol-byd-gwaith-yng-nghymru/ Mae Gyrfa Cymru yn cynhyrchu cyfres o daflenni 'Spotlight' sy'n ffynhonnell gyfoethog o wybodaeth am y farchnad lafur yn ymwneud ag ardaloedd daearyddol a meysydd galwedigaethol gwahanol. Maent oll yn cwmpasu'r ffaith fod y gallu i siarad Cymraeg a Saesneg yn fantais yn y gweithle ac yn cynnwys ystadegau sy'n gysylltiedig â hyn. Fel enghraifft, gellir gweld 'Spotlight on Care' yn: www.careerswales.com/cy/golwg-ar-ofal/

Rhif y cam gweithredu	Gweithred	Gan Bwy	Erbyn Pryd	Cyflawni'r Amcanion
4.8	Llywodraeth Cymru i ymgysylltu â'r cyrff proffesiynol perthnasol er mwyn cydweithio i gynllunio sut y dylai eu haelodau ddarparu gwasanaethau Cymraeg.	LiC.	Mawrth 2017	<p>Mae cyrff proffesiynol yn cael eu cynrychioli ar Fwrdd Partneriaeth y Gymraeg mewn Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.</p> <p>Bu Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu'n ddiweddar gyda chyrrff proffesiynol yn y sector gofal sylfaenol ynghylch y diwygiadau penodol oedd angen eu gwneud i'w rheoliadau proffesiynol er mwyn cynnwys dyletswyddau ar y Gymraeg a mae hyn wedi codi ymwybyddiaeth ac ysgogi trafodaethau ar gyfleoedd eraill i wella gwasanaethau Cymraeg.</p>

Rhif y cam gweithredu	Gweithred	Gan Bwy	Erbyn Pryd	Cyflawni'r Amcanion
Amcan 5: Addysg Broffesiynol				
5.1	<p>Addysg ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ar lefel cyn cofrestru ac ôl-gofrestru i gynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith, gan ganolbwyntio'n benodol ar y ddeddfwriaeth a'r polisi sydd wrth gefn darparu gwasanaethau Cymraeg. Dylai hyn gynnwys ymwybyddiaeth o egwyddorion, defnydd ac effaith y Cynnig Rhagweithiol ynghyd ag ystyriaeth o ddiwygio'r astudiaethau achos a ddefnyddir wrth addysgu cyrsiau gofal iechyd i gynnwys materion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg.</p>	<p>LiC. Sefydliadau Addysg Uwch. Gofal Cymdeithasol Cymru.</p>		<p>Mae hyn yn digwydd yn gyffredinol ar draws y sector addysgu uwch. Ym Mhrifysgol Abertawe, er enghraifft, mae myfyrwyr meddygol yn derbyn prif ddarlith am awr am bwysigrwydd y Gymraeg mewn gofal iechyd a hefyd yn cael eu hannog i gyflwyno gwaith academiaidd yn Gymraeg.</p>
5.2	<p>Mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru, y byrddau iechyd ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol i archwilio sut gallai gweithwyr proffesiynol wrth eu gwaith a'r rheiny sy'n dilyn rhaglenni addysg a hyfforddiant yng Nghymru ymgysylltu â'r agenda ehangu mynediad.</p>	<p>Prif Weithredwyr GIG Cymru. LiC. Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol.</p>	Mawrth 2018	<p>Mae rhai byrddau iechyd yn ymgysylltu yn fwy na'i gilydd gyda rhai yn cynnig profiad gwaith neu weithdai i fyfyrwyr.</p> <p>Mae eraill yn cydweithio gydag ysgolion, colegau AB a'r Coleg Cymraeg. Dengys tystiolaeth fod y gwaith hwn yn disgyn gan amlaf ar ysgwyddau'r Swyddog Iaith Gymraeg, a mae angen mwy o bwyslais felly ar y rôl y gall gweithwyr proffesiynol hefyd ei chwarae i roi hyn ar waith.</p> <p>Yng Ngorffennaf 2018 cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y bydd yna gynnydd yn y lleoedd astudio mewn ysgolion meddygol yng Nghymru. Mae Prifysgolion Caerdydd, Abertawe a Bangor yn cydweithio â'i gilydd i edrych ar yr opsiynau ar gyfer rhoi cynlluniau ar waith i ehangu addysg feddygol yn y Gogledd. Bydd mwy o bwyslais ar hyfforddiant yn y gymuned a bydd trefniadau newydd yn rhoi mwy o gyfleoedd i siaradwyr Cymraeg astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.</p>

Rhif y cam gweithredu	Gweithred	Gan Bwy	Erbyn Pryd	Cyflawni'r Amcanion
				<p>O safbwynt gwasanaethau cymdeithasol, roedd yr ymatebion a dderbyniwyd yn ymwneud â gwaith gyda phrifysgolion i sicrhau bod staff dwyieithog yn cael ei recriwtio a lleoliadau dwyieithog yn cael eu cynnig.</p> <p>Mae Ynys Môn a Gwynedd yn gweithio â Phrifysgol Bangor o ran myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg. Mae Gwynedd hefyd yn gweithio â darparwyr addysg eraill i ehangu darpariaeth iaith Gymraeg staff. Yng Ngheredigion darperir cefnogaeth ariannol ychwanegol i fyfyrwyr gwaith cymdeithasol sy'n siarad Cymraeg wedi'u lleoli ag aseswyr ymarfer Cymraeg eu hiaith yng Ngheredigion.</p>
5.3	Dylai Cynlluniau Tymor Canolig Integredig (IMTP) y byrddau iechyd a'r ymddiriedolaethau ystyried y gofynion ar gyfer darparu gwasanaethau yn Gymraeg ar hyn o bryd ac yn y dyfodol fel sail i strategaeth Gweithlu sefydliadau'r GIG a chomisiynu addysg.	Prif Weithredwyr GIG Cymru.	Mawrth 2017	Mae gwybodaeth gadarnach yn yr IMTPs ynghylch y Gymraeg ond nid yw'r Gymraeg bob tro wedi'i gwreiddio'n llawn i strategaethau'r gweithlu. Mae yna heriau a phwysau ehangach o ran recriwtio sy'n cael effaith ar gynnydd. Ond mi fydd y safonau iaith yn rhoi mwy o ffocws i hyn.
5.4	Wrth gomisiynu lleoedd ar raglenni addysg a hyfforddiant mewn addysg uwch ar draws yr amrywiaeth o weithwyr gofal iechyd, dylai Llywodraeth Cymru ystyried ehangu'r cyfleoedd i'r rhain gael eu darparu yn ddwyieithog neu yn Gymraeg.	LiC.	Mawrth 2018	<p>Erbyn 2019 disgwylir i drefniadau fod mewn lle i fyfyrwyr allu wneud y cyfan o'u cwrs gradd israddedig mewn meddygaeth yn y Gogledd, yn sgil cydweithio rhwng Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Bangor.</p> <p>Law yn llaw â hyn, bydd y ddarpariaeth addysg feddygol yng Nghymru yn cael ei hehangu ar unwaith drwy ariannu 40 o leoedd newydd ar gyfer myfyrwyr meddygol. Bydd y rhain ar gael o fis Medi 2018 ymlaen – 20 yn ysgol feddygol Caerdydd a 20 yn ysgol feddygol Abertawe. Bydd Prifysgol Abertawe hefyd yn cydweithio â Phrifysgol Aberystwyth i sicrhau mwy o gyfleoedd yn y Gorllewin.</p>

Rhif y cam gweithredu	Gweithred	Gan Bwy	Erbyn Pryd	Cyflawni'r Amcanion
5.5	Llywodraeth Cymru, ynghyd â sefydliadau addysg uwch a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i weithio gyda'i gilydd i wella darpariaeth y cyrsiau cyfrwng Cymraeg presennol mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, a nodi cyfleoedd ychwanegol i symud yr agenda yn ei blaen.	LiC. CCAUC. Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau. Sefydliadau Addysg Uwch. Coleg Cymraeg Cenedlaethol.	Mawrth 2017	<p>Mae'r Coleg Cymraeg wedi gwneud cynnydd ar ddarparu cyrsiau cyfrwng Cymraeg. Yn 2017 ym Mhrifysgol Caerdydd roedd 167 o fyfyrwyr ar draws yr ysgol yn siarad Cymraeg a mae 57 yn astudio rhai o'r cyrsiau yn Gymraeg. Ym Mangor, mae 315 o'r myfyrwyr sy'n mynychu'r cyrsiau Nyrso yn siarad Cymraeg a mae 272 yn astudio rhan o'r cwrs yn Gymraeg.</p> <p>Mae'r Coleg Cymraeg yn ariannu darlithyddiaethau ar draws Cymru mewn Nyrso, Meddygaeth (gan gynnwys Biofeddygaeth/Geneteg), Gwyddorau Iechyd, Iaith a Lleferydd, Fferylliaeth, Gwaith Cymdeithasol.</p> <p>Ers cyhoeddi Mwy na geiriau mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi adolygiad o rôl y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac wedi cadarnhau y bydd ei rôl yn cael ei ehangu i'r sector Addysg Bellach. Er mai megis dechrau mae gwaith y Coleg Cymraeg yn y maes yma, yn y tymor byr mae'r sector iechyd a gofal wedi ei flaenoriaethu. Mae'r Coleg wedi comisiynu arbenigwyr pwnc i greu adroddiad o ran adnabod adnoddau iechyd a gofal a bydd y Coleg yn bwrw ymlaen i gomisiynu adnoddau i gefnogi'r gwaith ar sail yr adroddiad hwnnw. Bydd prosiectau dilyniant, hybu a hyrwyddo yn cael eu trefnu o fewn y maes iechyd a gofal yn ogystal.</p> <p>Mae Colegau Cymru wedi nodi bod cynnydd da wedi'i wneud gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ganfod llwybrau yn y sector iechyd o addysg bellach i addysg uwch. Mae'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Dwyieithrwydd mewn Addysg Bellach yn canolbwyntio ar dair elfen:</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) Datblygu ethos dwyieithog (ii) Cynyddu sgiliau Cymraeg (iii) Datblygu darpariaeth Gymraeg/dwyieithog.

Rhif y cam gweithredu	Gweithred	Gan Bwy	Erbyn Pryd	Cyflawni'r Amcanion
5.6	<p>Rhaglenni hyfforddiant a datblygiad proffesiynol i gynnwys modiwl/elfen ar effaith sensitifrwydd i iaith ar effeithiolrwydd asesiadau a gofal; y 'Cynnig Rhagweithiol' a chyfrifoldeb cyrff cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg ac yn Saesneg hefyd.</p>	<p>Gofal Cymdeithasol Cymru. Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau. Sefydliadau Addysg Uwch. Awdurdodau Lleol.</p>	Mawrth 2017	<p>O safbwynt Gofal Cymdeithasol Cymru cynhaliwyd adolygiad o Fframwaith Sefydlu'r Blynyddoedd Cynnar a'r Fframwaith Sefydlu Gofal Cymdeithasol. Bydd y fframweithiau sefydlu newydd yn cyd-fynd yn agos â'r gyfres newydd o gymwysterau gofal cymdeithasol, iechyd, y blynyddoedd cynnar a gofal plant. Bydd hyn yn ymgorffori'r cynnig rhagweithiol i'r holl staff newydd fydd yn dechrau cael eu cyflogi yn y sector.</p> <p>Yn 2016 gwelodd rhaglen derfynol y Fframwaith Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus (CPEL) ar gyfer gweithwyr cymdeithasol gyfres o raglenni wedi'u hanelu at gynorthwyo gweithwyr cymdeithasol i ddatblygu eu harferion. Mae'r rhaglenni hyn yn benodol i Gymru a maent yn cyd-fynd â chyd-detun polisi yng Nghymru ac egwyddorion Mwy na geiriau.</p> <p>Caiff sesiynau ar ymwybyddiaeth iaith eu cynnwys mewn cyrsiau cynefino ar draws yr holl fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau. Mae cwrs ymwybyddiaeth iaith newydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd i gael ei lansio yn gynnar yn 2019. Dywedodd rhai o'r byrddau iechyd fod y gallu i sicrhau staff ar gyfer hyn yn gallu bod yn heriol, ynghyd â chapasiti'r Swyddog Iaith i ddarparu'r holl hyfforddiant angenrheidiol.</p>

Rhif y cam gweithredu	Gweithred	Gan Bwy	Erbyn Pryd	Cyflawni'r Amcanion																														
5.7	<p>Partneriaethau Gradd mewn Gwaith Cymdeithasol i osod ac adolygu targedau ar gyfer recriwtio myfyrwyr sydd â sgiliau Cymraeg.</p> <p>(Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol yn unig.)</p>	<p>Yr holl asiantaethau sy'n bartneriaid a'r Sefydliadau Addysg Uwch.</p> <p>Gofal Cymdeithasol Cymru.</p>	Mawrth 2017	<p>Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi cyfrannu at, a wedi cefnogi cynllun academaidd y Coleg Cymraeg, sy'n cynnwys y targedau canlynol:</p> <table border="1" data-bbox="1326 316 2119 1385"> <thead> <tr> <th data-bbox="1326 316 1756 448"></th> <th data-bbox="1756 316 1928 448">Llinell Sylfaen Bresennol</th> <th data-bbox="1928 316 2119 448">Targedau 5 mlynedd</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td data-bbox="1326 448 1756 539">Myfyrwyr sy'n astudio'r cwrs yn ei gyfanrwydd yn Gymraeg</td> <td data-bbox="1756 448 1928 539">34</td> <td data-bbox="1928 448 2119 539">40</td> </tr> <tr> <td data-bbox="1326 539 1756 668">Myfyrwyr sy'n astudio'r rhan fwyaf o'r cwrs yn Gymraeg (80 credyd)</td> <td data-bbox="1756 539 1928 668">34</td> <td data-bbox="1928 539 2119 668">40</td> </tr> <tr> <td data-bbox="1326 668 1756 798">Myfyrwyr sy'n astudio rhan sylweddol yn Gymraeg (40 credyd)</td> <td data-bbox="1756 668 1928 798">44</td> <td data-bbox="1928 668 2119 798">50</td> </tr> <tr> <td data-bbox="1326 798 1756 888">Myfyrwyr sy'n astudio cyfran o'r cwrs yn Gymraeg</td> <td data-bbox="1756 798 1928 888">74</td> <td data-bbox="1928 798 2119 888">90</td> </tr> <tr> <td data-bbox="1326 888 1756 979">Astudiaethau cyfrwng Cymraeg sy'n cyfateb i amser llawn</td> <td data-bbox="1756 888 1928 979">42</td> <td data-bbox="1928 888 2119 979">50</td> </tr> <tr> <td data-bbox="1326 979 1756 1109">Nifer y staff sy'n addysgu drwy'r Gymraeg sy'n cael eu cyflogi gan y sefydliad</td> <td data-bbox="1756 979 1928 1109">10</td> <td data-bbox="1928 979 2119 1109">12</td> </tr> <tr> <td data-bbox="1326 1109 1756 1200">Staff sy'n cael eu hariannu drwy Gynllun Staffio'r Coleg Cymraeg</td> <td data-bbox="1756 1109 1928 1200">2</td> <td data-bbox="1928 1109 2119 1200">4</td> </tr> <tr> <td data-bbox="1326 1200 1756 1291">Lleoliadau lle mae'n bosibl astudio 80 credyd</td> <td data-bbox="1756 1200 1928 1291">1</td> <td data-bbox="1928 1200 2119 1291">2</td> </tr> <tr> <td data-bbox="1326 1291 1756 1385">Lleoliadau lle mae'n bosibl astudio 40 credyd</td> <td data-bbox="1756 1291 1928 1385">2</td> <td data-bbox="1928 1291 2119 1385">3</td> </tr> </tbody> </table>		Llinell Sylfaen Bresennol	Targedau 5 mlynedd	Myfyrwyr sy'n astudio'r cwrs yn ei gyfanrwydd yn Gymraeg	34	40	Myfyrwyr sy'n astudio'r rhan fwyaf o'r cwrs yn Gymraeg (80 credyd)	34	40	Myfyrwyr sy'n astudio rhan sylweddol yn Gymraeg (40 credyd)	44	50	Myfyrwyr sy'n astudio cyfran o'r cwrs yn Gymraeg	74	90	Astudiaethau cyfrwng Cymraeg sy'n cyfateb i amser llawn	42	50	Nifer y staff sy'n addysgu drwy'r Gymraeg sy'n cael eu cyflogi gan y sefydliad	10	12	Staff sy'n cael eu hariannu drwy Gynllun Staffio'r Coleg Cymraeg	2	4	Lleoliadau lle mae'n bosibl astudio 80 credyd	1	2	Lleoliadau lle mae'n bosibl astudio 40 credyd	2	3
	Llinell Sylfaen Bresennol	Targedau 5 mlynedd																																
Myfyrwyr sy'n astudio'r cwrs yn ei gyfanrwydd yn Gymraeg	34	40																																
Myfyrwyr sy'n astudio'r rhan fwyaf o'r cwrs yn Gymraeg (80 credyd)	34	40																																
Myfyrwyr sy'n astudio rhan sylweddol yn Gymraeg (40 credyd)	44	50																																
Myfyrwyr sy'n astudio cyfran o'r cwrs yn Gymraeg	74	90																																
Astudiaethau cyfrwng Cymraeg sy'n cyfateb i amser llawn	42	50																																
Nifer y staff sy'n addysgu drwy'r Gymraeg sy'n cael eu cyflogi gan y sefydliad	10	12																																
Staff sy'n cael eu hariannu drwy Gynllun Staffio'r Coleg Cymraeg	2	4																																
Lleoliadau lle mae'n bosibl astudio 80 credyd	1	2																																
Lleoliadau lle mae'n bosibl astudio 40 credyd	2	3																																

Rhif y cam gweithredu	Gweithred	Gan Bwy	Erbyn Pryd	Cyflawni'r Amcanion
				<ul style="list-style-type: none"> • Nid yw myfyrwyr sy'n rhugl neu'n rhannol rugl bob tro yn dewis astudio yn Gymraeg • Mae 28% o'r holl fyfyrwyr gwaith cymdeithasol sy'n cymhwys yn dweud eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl neu'n siaradwyr Cymraeg sydd ddim yn rhugl • Mae'r rhaglen lawn yn cael ei dysgu yn Gymraeg mewn un rhaglen a mae 12 myfyriwr wedi cwblhau dros 2-3 o'u hastudiaethau yn Gymraeg • Yn ogystal, mae yna un rhaglen arall lle cwblhaodd mwy na phum myfyriwr rhwng 40 a 80 credyd yn Gymraeg • Astudiodd dros 125 o fyfyrwyr eraill ran o'u gradd yn Gymraeg ond llai na 40 credyd.
5.8	<p>Galluogi myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg i gael euparu gyda staff sy'n siarad Cymraeg pan fyddant ar leoliad. Llywodraeth Cymru i weithio i alluogi darparwyr addysg i gael mynediad at ddata ESR dienw ar sgiliau Cymraeg staff GIG Cymru.</p>	LiC.	Mawrth 2018	<p>Mae darlithwyr Y Coleg Cymraeg yn gweithio gyda'r byrddau iechyd i geisio sicrhau bod myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg yn cael eu paru gyda staff sy'n siarad Cymraeg pan fyddant ar leoliad. Mae cyd-weithio effeithiol iawn yn digwydd gyda rhai byrddau iechyd yn y cyswllt hwn.</p>

Rhif y cam gweithredu	Gweithred	Gan Bwy	Erbyn Pryd	Cyflawni'r Amcanion
Amcan 6: Y Gymraeg yn y gweithle				
6.1	<p>Cefnogir hyfforddiant i staff ar gyfer darparu gwasanaethau yn Gymraeg, gan ganolbwyntio'n arbennig ar annog siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio eu sgiliau iaith yn y gweithle. Caiff cyfleoedd hyfforddi ac adnoddau iaith i gynyddu hyder staff i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg hefyd e hybu.</p>	<p>Prif Weithredwyr GIG Cymru. Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol. Gofal Cymdeithasol Cymru.</p>	Mawrth 2018	<p>Darparodd wyth o gyrff y GIG dystiolaeth gyda'r rhan fwyaf wedi dechrau cymryd mantais o'r cwrs blasu Cymraeg 10 awr ar-lein sy'n rhan o Cymraeg Gwaith.</p> <p>Un fenter ddiddorol gan Gwm Taf y bu'r Swyddog Iaith yn gysylltiedig â hi yw lansiad y fenter newydd 'Siarad' a fydd yn galluogi siaradwyr Cymraeg i gefnogi dysgwyr Cymraeg ar draws y bwrdd iechyd.</p> <p>Ymatebodd 9 awdurdod lleol i'r cam gweithredu hwn. Nododd bob un eu bod yn darparu hyfforddiant i lefelau amrywiol o allu. Cyflwynodd Sir Ddinbych gynllun monitro ar gyfer dysgwyr Cymraeg. Mae Gogledd Cymru yn cynyddu sgiliau Cymraeg yn y Gweithlu drwy MA mewn gwaith cymdeithasol o Brifysgol Bangor o fis Medi 2018.</p> <p>Gofynnodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol i Ofal Cymdeithasol Cymru i reoli a pheilotu ymagwedd newydd i helpu gweithwyr gofal cymdeithasol i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg fel y gellir bodloni anghenion pobl sydd am dderbyn gwasanaethau yn Gymraeg yn well.</p>
6.2	<p>Rhaglenni datblygu arweinwyr neu uwch reolwyr cenedlaethol mewn iechyd neu ofal cymdeithasol i gynnwys elfen ar arwyddocâd iaith o ran ateb anghenion pobl, y 'Cynnig Rhagweithiol' a chynllunio iaith effeithiol.</p>	<p>LiC. Gofal Cymdeithasol Cymru.</p>		<p>Mae rhaglen 'Camu Ymlaen i Reoli' Gofal Cymdeithasol Cymru a beilotwyd yn wreiddiol gan Brifysgol De-ddwyrain Cymru yn rhaglen gyffrous ar gyfer darpar reolwyr gofal cymdeithasol. Mae'r rhaglen yn rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth sydd eu hangen ar weithwyr gofal cymdeithasol a gweithwyr iechyd i wneud y newid wrth drosglwyddo i rôl. Mae'r rhaglen yn cwmpasu 3 maes rheoli allweddol o fewn gofal cymdeithasol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Deall ymarfer sy'n canolbwyntio ar y person wrth arwain a rheoli gofal cymdeithasol; • Deall theorïau, modelau a fframweithiau ar gyfer arwain a rheoli gwasanaethau gofal cymdeithasol a;

Rhif y cam gweithredu	Gweithred	Gan Bwy	Erbyn Pryd	Cyflawni'r Amcanion
				<ul style="list-style-type: none"> Deall sut i arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol mewn gofal cymdeithasol. <p>Rhan o hyn yw deall pwysigrwydd y Gymraeg wrth arwain a rheoli lleoliadau Gofal Cymdeithasol.</p> <p>Cwblhaodd 25 o unigolyn y cwrs peilot yn 2017. Mae 100 wedi'u cofrestru ar y rhaglen ar hyn o bryd.</p>
6.3	<p>Sefydliadau Addysg Uwch, Sefydliadau Addysg Bellach, y gwasanaethau cymdeithasol a sefydliadau'r GIG i weithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau bod y gwerth a'r manteision i ddarparwyr gwasanaethau ac i bobl sy'n siarad Cymraeg o gael staff dwyieithog yn cael eu hadlewyrchu yn eu prosesau recriwtio, comisiynu a datblygu staff. Gall Gyrfa Cymru fod o gymorth drwy gynorthwyo'r sefydliadau i dargedu eu gwaith hysbysebu yn gywir tuag at siaradwyr Cymraeg.</p>	<p>Prif Weithredwyr GIG Cymru.</p> <p>WEDS.</p> <p>Colegau Cymru.</p> <p>Gyrfa Cymru.</p> <p>Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol.</p> <p>Sefydliadau Addysg Uwch.</p> <p>Darparwyr Addysg Bellach.</p>	Mawrth 2018	<p>Ym Mehefin 2017 cyfarfu'r Swyddogion Iaith yn y sector iechyd â Gyrfa Cymru er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r hyn oedd pob sefydliad yn ei wneud i hybu hyn. Trafodwyd y Gyfnewidfa Addysg Busnes a rhannwyd rhai o'r adnoddau roedd Gyrfa Cymru wedi'u datblygu ar gyfer y cyhoedd. Mynychodd Gyrfa Cymru'r gweithdy "Gwella sut yr ydym ffactora'r Gymraeg i gynllunio'r Gweithlu" ym mis Mai 2018 lle cafwyd cyflwyniad ar y cyfleoedd i weithio ag ysgolion.</p> <p>Dywedodd un bwrdd iechyd fod 'ceisio prif-ffrydio'r Gymraeg fel hanfodol mewn meddygaeth gyffredinol a phroffesiynau Nyrso yn parhau yn her. Mae gan rai meysydd rheng-flaen bryderon y bydd yn cael effaith negyddol ar recriwtio'.</p>
6.4	<p>Swyddogion Cymraeg (yn GIG Cymru) a Hyrwyddwyr y Gymraeg (yn y gwasanaethau cymdeithasol) i ddod yn Llysgenhadon Busnes gyda Gyrfa Cymru er myn hybu'r angen am staff sy'n siarad Cymraeg yn y sectorau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol mewn ysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru.</p>	<p>Prif Weithredwyr GIG Cymru.</p> <p>Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol.</p> <p>Colegau Cymru.</p>		<p>Mae sawl bwrdd iechyd wedi magu cysylltiad â Gyrfa Cymru ac mae llawer yn gweithio gydag ysgolion, colegau a phrifysgolion i dynnu sylw at y cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg weithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Mae rhai byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau yn gwneud mwy nag eraill a gallent ddysgu oddi wrth ei gilydd er mwyn cyflawni hyn yn llwyddiannus. O'r 10 sefydliad iechyd mae un yn Llysgennad Busnes yn barod ac mae un arall yn y broses o ddod yn un.</p> <p>Prin oedd y dystiolaeth gan wasanaethau cymdeithasol am y cynnydd oedd yn cael ei wneud gyda'r cam gweithredu hwn.</p>

Rhif y cam gweithredu	Gweithred	Gan Bwy	Erbyn Pryd	Cyflawni'r Amcanion
6.5	Ymwybyddiaeth o'r cyswllt rhwng gwasanaethau sy'n sensitif i iaith ac urddas yr unigolyn, yn ogystal ag ymwybyddiaeth o'r Cynnig Rhagweithiol, i gael ei gyflwyno i holl staff GIG Cymru, y gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol fel rhan o sesiynau ymsefydlu arferol. Dylai staff GIG Cymru hefyd gwblhau'r modiwl e-ddysgu ac Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg fel blaenoriaeth.	Prif Weithredwyr GIG Cymru. Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol. Cyngor Gofal Cymru (Gofal Cymdeithasol Cymru).	Mawrth 2017	Mae'r rhan fwyaf o gyrff y GIG yn gwneud hyn fel rhan o'u hyfforddiant cynefino. Dim ond rhai sefydliadau GIG sy'n defnyddio'r modiwl Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg presennol gan nad yw pawb o'r farn ei fod yn addas. Mae modiwl e-ddysgu newydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. O safbwynt gwasanaethau cymdeithasol mae ymwybyddiaeth iaith Gymraeg yn cael ei gynnwys mewn rhaglenni cynefino ar lefel corfforaethol a gwasanaethau.
6.6	Dylai sefydliadau'r GIG sicrhau y caiff sgiliau Cymraeg eu prif ffrydio fel cymwyseddau craidd yn y Fframwaith Sgiliau a Gwybodaeth.	Prif Weithredwyr GIG Cymru.	Mawrth 2018	Trafodaethau ar y gweill, ond dylid nodi fod y Fframwaith Sgiliau a Gwybodaeth (y KSF) yn fframwaith ar gyfer y DU felly nid mater uniongyrchol yw ei newid. Er na chyfeirir yn benodol at y Gymraeg o fewn y KSF mae modd ar hyn o bryd i gynnwys sgiliau Cymraeg ynddo o dan bob un o'r dimensiynau craidd, yn arbennig cyfathrebu a chydarddoldeb ac amrywiaeth.
6.7	Llywodraeth Cymru i weithio gyda'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg i ateb yr angen yn y sectorau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol er mwyn datblygu sgiliau Cymraeg y staff. Bydd hyn yn cynnwys datblygu a hybu adnoddau a darpariaeth berthnasol.	LiC. Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg.	Mawrth 2018	Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol er mwyn hyrwyddo'r hyn sy'n cael ei gynnig a'r cyfleoedd sydd ar gael i'r sector. Mae'r Ganolfan hefyd wedi datblygu cwrs ar-lein newydd wedi'i deilwra yn benodol at y sector iechyd fel rhan o'i gynllun 'Cymraeg Gwaith'. Mae'r cwrs 10 awr yn rhad ac am ddim a mae'n cyflwyno geiriau ac ymadroddion perthnasol i staff rheng-flaen. Mae cyngor ar ynganu ac ymarferion amrywiol eraill hefyd wedi'u cynnwys. Datblygwyd cwrs tebyg ar gyfer gofal cymdeithasol.
6.8	Yr holl gymwysterau sydd eu hangen ar weithlu gofal cymdeithasol i gael eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu egwyddorion angen iaith a'r Cynnig Rhagweithiol yn ddigonol.	Gofal Cymdeithasol Cymru.	Mawrth 2018	Mae Gofal Cymdeithasol Cymru ar hyn o bryd yn cefnogi'r consortiwm corff gwobrwyo er mwyn adnabod llwybrau addas a bydd felly yn argymhell fod unrhyw un sy'n cwblhau Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant hefyd yn cwblhau'r llwybr Iaith Gymraeg dewisol.

Rhif y cam gweithredu	Gweithred	Gan Bwy	Erbyn Pryd	Cyflawni'r Amcanion
Cam 7: Rheoleiddio ac Arolygu				
7.1	Dylai'r holl archwiliadau ar wasanaethau gynnwys cwestiynau yn ymwneud â chanfyddiad y dinesydd o'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael gan ddarparwr y gwasanaeth, ochr yn ochr â phrofiadau'r siaradwyr Cymraeg o'r gwasanaethau hynny.	Prif Weithredwyr GIG Cymru.	Mawrth 2018	Dangosodd wyth o'r cyrff iechyd dystiolaeth o gynnal archwiliadau/holiaduron. Roedd casglu gwybodaeth am ganfyddiadau a disgwyliadau eu defnyddwyr gwasanaeth mewn perthynas â gofal iechyd Cymraeg yn brif darged i Betsi Cadwaladr yn 2017-18.
7.2	Arolygwyr Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i barhau i arolygu ac adrodd ar p'un a yw siaradwyr Cymraeg yn cael cynnig gwasanaethau yn Gymraeg fel rhan naturiol o'u gofal neu beidio, ac a yw siaradwyr Cymraeg yn medru defnyddio'r Gymraeg i fynegi eu hunain pan fyddant yn derbyn gofal yn unol â'r Safonau Iechyd a Gofal.	Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.	Mawrth 2017	Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi parhau i arolygu lleoliadau gofal iechyd yng Nghymru er mwyn canfod a yw siaradwyr Cymraeg yn cael cynnig gwasanaethau yn Gymraeg ac yn gallu cyfathrebu yn Gymraeg fel rhan o'u pecyn gofal. Mewn gwasanaethau gofal sylfaenol, e.e. Meddygon Teulu a deintyddion, dywedodd tua hanner y cleifion y bu AGIC yn siarad â hwy wrth arolygu eu bod yn gallu siarad â staff yn Gymraeg bob tro pan oeddent eisiau; ond roedd hyn yn amrywio gan ddibynnu ar y bwrdd iechyd. Mewn gofal eilaidd, sef ysbytai'r GIG yn bennaf, dywedodd y rhan fwyaf o gleifion wrth AGIC yn ystod yr arolygiadau eu bod wedi cael cynnig y dewis i gyfathrebu â staff yn yr iaith o'u dewis. Ystyriodd AGIC feysydd arall mewn perthynas â'r 'Cynnig Rhagweithiol' yn ystod ei arolygiadau, megis: <ul style="list-style-type: none"> • A yw gwybodaeth i gleifion ar gael yn ddwyieithog? • A oes yna wasanaeth dwyieithog yn cael ei ddarparu? • Sut mae'r lleoliad gofal iechyd yn sicrhau fod cleifion sydd am gyfathrebu yn Gymraeg yn gallu gwneud hynny?